

## Cyngor Sir Caerfyrddin Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2022-2023

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu gweithgareddau'r Cynghorydd a enwir isod am y cyfnod o fis Mai 2022 tan fis Mai 2023 (Blwyddyn y Cyngor). Fe'i darperir er gwybodaeth i etholwyr, ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad yw barn y Cynghorydd ac nid yw'n adlewyrchu barn Cyngor Sir Caerfyrddin o reidrwydd.

<b>Y Cynghorydd: Sean Rees</b>	<b>Adran Etholiadol: Ward Glanymôr</b>
--------------------------------	--

<b>Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau</b>
<b><i>Pwyllgorau'r Cyngor</i></b>
Y Cyngor Llawn
Y Pwyllgor Craffu - Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg
Pwyllgor Penodi Aelodau
<b>Cofnod Presenoldeb:</b> <a href="#">Cofnod presenoldeb - Cyng. Sean Rees (llyw.cymru)</a>

<b>Rhan 2: Gweithgareddau Etholaeth</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>- Cymorthfeydd i roi cyngor cyffredinol, arolygon cymunedol a llythyrau newyddion rheolaidd i drigolion</li> <li>- Ymweliad â Datblygiad Pentre Awel a fydd yn dod â busnes, ymchwil, addysg, gofal iechyd cymunedol a chyfleuster canolfan hamdden newydd o'r radd flaenaf i'r ardal. Cynyddu twristiaeth, adfywio a chyfleoedd economaidd</li> <li>- Aelod o'r grŵp gwirfoddol 'Cadwch Glanymôr yn Daclus', yn parhau i adrodd ar dipio anghyfreithlon a chynorthwyo gyda gwaith glanhau. Casglu sbwriel gyda disgyblion o Eco-gynghorau Ysgol Penrhos ac Ysgol Maes y Morfa. Trefnu sgipiau cymunedol a chynyddu nifer yr arwyddion ynghylch cosb am few cŵn ar draws y Ward</li> <li>- Darparu gwybodaeth i drigolion am wasanaethau i gynorthwyo gyda chymorth Costau Byw</li> <li>- Parhau i gefnogi'r gwaith o ddarparu Clwb Ieuenctid Kicks y mae nifer o blant yn ei fynychu a hynny drwy gyllid gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau a Sefydliad Cymunedol Abertawe.</li> <li>- Ymuno â sesiynau 'Cwrdd â'r Stryd' a gynhaliwyd gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol ar draws ardaloedd Seaside, Doc Newydd a'r Morfa. Mynychu cyfarfodydd PACT misol i godi pryderon</li> <li>- Codi pryderon trigolion ynghylch goryrru ar hyd Ffordd Gyswllt yr Arfordir. Mae Partneriaeth Gan Bwyll hefyd wedi cynnal asesiad risg ar Ffordd y Doc Newydd</li> <li>- Gweithio gyda Phriffyrdd i osod arwyddion ffyrdd unffordd newydd yn Stryd Havelock, Morfa</li></ul>

- Sicrhau cyllid ac uwchraddio Llwybr Machynys yn Llwybr statws 'Rhannu Defnydd' newydd fel rhan o 'Gais Teithio Llesol Prif Gynllun Llanelli'
- Sefydlu 'Cyfeillion Doc y Gogledd' i ddod â chynrychiolwyr o grwpiau chwaraeon, ac iechyd a llesiant lleol ynghyd i weithio'n gadarnhaol gyda'r Cyngor i wella ein Doc. Croesawu Taith Baton Gemau'r Gymanwlad 2022 i Ddoc y Gogledd
- Cefnogi darpariaeth y Cyngor Tref o ran y Pwll Padlo ym Mharc y Goron, Seaside a Phad Sblasio ym Mharc Havelock ym Morfa
- Cymryd rhan gyda phlannu cymunedol ym Mharc y Goron, Iard y Bryn a Pharc Havelock fel rhan o'r gronfa 'Lleoedd Lleol ar gyfer Natur'. Gweithio gyda'r Tîm Hamdden Awyr Agored i gwblhau prosiect 'Hafan Lliedi' ym Machynys a Llwybr Arfordir y Mileniwm

<b>Rhan 3: Cyrff Llywodraethu Ysgolion</b>		
<b>Rhestr o Gyrff Llywodraethu Ysgolion</b>	<b>Cofnod Presenoldeb</b>	
	<b>Nifer y Cyfarfodydd</b>	<b>Canran</b>
Ysgol Penrhos	4	75%
Ysgol Maes y Morfa	4	75%

<b>Adran 4: Cynrychiolaeth ar Gyrff Allanol</b>	
<b>Cyrff Allanol</b>	<b>Swydd</b>
Canolfan Deulu'r Morfa	Cadeirydd / Ymddiriedolwr
Clwb Ieuencid Kicks	Ymddiriedolwr
Cymdeithasau Trigolion	Aelod
<i>Achub Ein Gwasanaethau - Rhwydwaith Gweithredu Ysbyty Tywysog Philip (SOSSPAN)</i>	Aelod

<b>Adran 5: Dysgu a Datblygu</b>
- Rhaglen / Hyfforddiant Sefydlu Llawn y Cyngor - wedi'i gwblhau

<b>Adran 6: Gweithgareddau a Materion Eraill</b>
- Cefnogi sawl elusen iechyd a llesiant a mudiadau / digwyddiadau cymunedol lleol yn ardal Llanelli
- Gweithio gyda'r Cyngor Sir i oleuo Neuadd y Sir yn Goch ar gyfer 'Diwrnod Ymwybyddiaeth Duchenne y Byd'
- Cyflwyno cynnig i achub y 'Gwasanaeth Adfer Strôc' yn Sir Gaerfyrddin a gafodd gefnogaeth unfrydol gan holl aelodau'r Cyngor Sir

**Llofnodwyd gan y Cynghorydd: S.L.REES**

**Dyddiad: 30.07.2023**